

# Cefnogi eich myfyrwyr – derbyniant addysg uwch 2021



Darganfod | Discover  
Prifysgol | Uni

Mae ymchwil wedi dangos bod myfyrwyr yn debygol o fod wedi drysu ac yn poeni am ganlyniadau eu harholiadau a cheisiadau i brifysgolion. Mae'n bwysicach nag erioed eu bod yn cael yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt fel y gallant wneud y dewisiadau sydd orau ar eu cyfer. Mae'r canllaw hwn a'r adnodd i fyfyrwyr sy'n cyd-fynd ag ef wedi'u cynllunio i helpu myfyrwyr i ddeall y penderfyniadau y bydd angen iddynt eu gwneud dros y misoedd nesaf.

## Y broses derbyniadau

Er bod y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn wahanol eleni, bydd y broses derbyniadau yn aros yn gymharol debyg i'r hyn a fu yn ystod blynnyddoedd blaenorol. Mae UCAS yn gweithio gyda phrifysgolion a cholegau er mwyn sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu trin mewn modd sy'n deg ac yn gyson.

Bydd UCAS yn derbyn graddau arholiadau gan y cyrff dyfarnu a byddant yn eu paru â dewisiadau ymgeisio eich myfyrwyr ac yn eu hanfon ymlaen i'r prifysgolion. Disgwylir i'r prifysgolion o'u dewis ystyried ac ymateb i'r graddau hyn yn yr un modd ag y byddent wedi'i wneud yn flaenorol.

Gellir gweld rhestr lawn o'r canlyniadau arholiadau y mae UCAS yn eu derbyn yn [ucas.com/sending-exam-results](https://ucas.com/sending-exam-results). Os bydd unrhyw un o'ch myfyrwyr yn sefyll arholiad nad yw wedi'i restru, mae'n bwysig ei fod yn anfon ei ganlyniadau/tystysgrifau at ddarparwyr y cwrs o'i ddewis.


Cewch hyd i wybodaeth am drefniadau arholiadau eleni yn adran adnoddau'r ddogfen hon.

## Beth nesaf ar gyfer myfyrwyr

Tra bod eich myfyrwyr yn aros am eu graddau, mae'n bwysig eu bod yn parhau â'u hymchwil fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau hyddysg ar gyfer eu dyfodol.

Gallwch hefyd edrych ar wybodaeth am y cwrs ar Darganfod Prifysgol – mae'n cynnwys arolygon gan fyfyrwyr sydd wedi gwneud y cwrs a gwybodaeth am yr hyn maen nhw wedi mynd ymlaen i'w wneud ar ôl y cwrs. Gallwch wyliau ein [fideo](#) byr i'ch helpu i ddeall yr ystadegau sydd ar gael drwy Darganfod Prifysgol.

Efallai y bydd gan rai myfyrwyr gwestiynau neu amheuon ynglŷn â'u dewisiadau gwreiddiol neu gallant fod yn ansicr ynghylch pa opsiynau sydd ganddynt. Os yw myfyriwr wedi ymgeisio eisoes, neu os yw'n bwriadu ymgeisio drwy'r broses Clirio ym mis Awst, dylai wirio gwefannau prifysgolion a cholegau i gadarnhau sut bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno, a sicrhau ei fod yn deall unrhyw newidiadau a wnaed – megis ei gyflwyno ar-lein neu drwy ddysgu cyfunol, dyddiadau cychwyn, neu sut a phryd y bydd modiwlau'n cael eu cyflwyno.



## Cymorth i fyfyrwyr sy'n ymchwilio

Mae yna lawer o bethau i'ch myfyrwyr eu hystyried wrth benderfynu beth i'w astudio ac ymhle. Dyma rai pethau y gallant feddwl amdanynt. Ni fydd popeth yn bwysig i bawb, felly man cychwyn da i'ch myfyrwyr yw meddwl am yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw.

Dyma rai o'r pethau y gallent fod am eu hystyried:

- Pa bynciau sydd o ddiddordeb iddynt ac y byddant yn eu mwynhau.
- Manylion cysriau, a pha fodiwlau sy'n apelio fwyaf.
- Beth maen nhw am ei gael o'r cwrs. Ydyn nhw am newid gyrfa, astudio pwnc sydd wrth fodd eu calon, neu wneud rhywbeth arall?
- Ydyn nhw am astudio gartref neu symud i le newydd.
- Ydyn nhw am astudio'n rhan-amser neu'n amser llawn.
- A ydynt am gael profiad ymarferol ar eu cwrs, fel lleoliad neu internaeth.
- Y gofynion mynediad ar gyfer cysriau y maent yn eu hystyried. Bydd prifysgolion a cholegau yn penu eu gofynion mynediad eu hunain, a gall y rhain amrywio yn dibynnu ar y pwnc a'r cwrs.

Byddwch yn gwybod pa gymorth sydd ei angen ar fyfyrwyr unigol. Mae gwybodaeth ar gael ar [Darganfod Prifysgol](#) i'ch cefnogi ymhellach.

Mae cymorth hefyd ar gael o'r wybodaeth leol, a'r hybiau cyngor ac arweiniad drwy [Uni Connect](#).

Dyma rai pethau allweddol i'ch myfyrwyr eu hystyried os ydynt wedi ymgeisio eisoes neu os ydynt yn bwriadu gwneud o hyd:

? A ydyn nhw'n gwybod a fydd y prifysgolion neu'r colegau y maen nhw wedi ymgeisio ar eu cyfer yn darparu dysgu wyneb yn wyneb neu a fyddant yn cynnig darpariaeth ar-lein yn unig? A yw hyn yn bwysig iddyn nhw?

? A ydyn nhw'n gwybod beth yw'r trefniadau ar gyfer llity ym mhob un o'u dewisiadau?

? Beth yw'r polisiau o ran gohirio yn y prifysgolion neu'r colegau y maen nhw wedi ymgeisio ar eu cyfer? A ydyn nhw'n gwybod a ydynt yn gallu gohirio ai peidio, pe byddent yn dymuno gwneud hynny?

? A ydyn nhw'n gwybod pa drefniadau y bydd prifysgolion a cholegau'n eu gwneud os bydd mesurau cadw pellter cymdeithasol newydd yn cael eu rhoi ar waith?


? A ydyn nhw wedi ystyried pa effaith y bydd mynd i'r brifysgol neu'r coleg eleni, neu ohirio am flwyddyn yn ei chael ar eu rhagolygon gyrfa yn yr hirdymor?

Rydym wedi datblygu adnodd y [gellir ei lawrlwytho](#) i helpu myfyrwyr i ystyried y cwestiynau hyn a gallwch ddod o hyd iddo yma.

# Clirio

Os yw eich myfyrwyr eisoes wedi ymgeisio i brifysgol neu goleg, dylent dderbyn ymateb erbyn 20 Mai. Mae angen iddynt ymateb i unrhyw gynnig drwy wefan UCAS erbyn 10 Mehefin. Mae ganddynt tan 30 Mehefin i ymgeisio am gwrs a chanddo leoedd ar ôl. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses hon ar wefan [UCAS](https://www.ucas.com).


Bydd y broses glirio ar gael o 5 Gorffennaf hyd 19 Hydref eleni, gan roi hyblygrwydd i fyfyrwyr wneud dewisiadau drwy gydol yr haf. Eleni, gall myfyrwyr Clirio hefyd ddefnyddio Clirio a Mwy, sef gwasanaeth dewisol sy'n ei gwneud hi'n bosibl i 'baru' ymgeiswyr â phrifysgolion a cholegau y mae eu cymwysterau a'u graddau'n cyfateb â nhw. Dylai ymgeiswyr gofio fod opsiynau eraill ar gael y tu hwnt i sefydliadau y maent yn cael eu paru â nhw, gan gynnwys gohirio neu edrych ar brifysgolion a cholegau eraill yn y broses glirio. Nid yw Clirio a Mwy ond ar gael i fyfyrwyr sydd heb eu paru â sefydliad y maent wedi ymgeisio am le yn dd.



# Adnoddau ar-lein

Mae digwyddiadau wyneb yn wyneb UCAS, yn ogystal â diwrnodau agored ar gyfer prifysgolion a cholegau, wedi'u gohirio neu eu canslo eleni. Fodd bynnag, mae UCAS yn cadw rhestr wedi'i diweddar o ddiwrnodau agored rhithwir ar ei [wefan](https://www.ucas.com), yn ogystal â gwybodaeth am ddyddiadau cau ac adnoddau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae gwefannau prifysgolion a cholegau hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall myfyrwyr gael rhagor o fanylion am y cwrs o'u dewis.

Os ceir newid sylweddol o ran y cylch ymgeisio – er enghraift, estyniad i'r dyddiad cau sy'n effeithio ar gais myfyriwr – bydd UCAS yn cysylltu â myfyrwyr i roi gwybod iddynt. Mae'n bwysig iawn bod myfyrwyr yn gwirio eu cyfrif Track er mwyn sicrhau bod eu manylion cyswllt yn gywir ac yn gyfredol. Gall prifysgolion hefyd gysylltu ag ymgeiswyr yn uniongyrchol i drafod unrhyw ofynion penodol neu i gynnig cefnogaeth.



# Ble i gael rhagor o wybodaeth

## Cymorth a chyngor Darganfod Prifysgol

Cymorth i ddewis cwrs: <https://discoveruni.gov.uk/cy/how-choose-course-cy/>

Cymorth i athrawon ac chyngorwyr: <https://discoveruni.gov.uk/cy/ar-gyfer-athrawon-ac-ymgyngorwyr/>

Gwybodaeth am gyllid myfyrwyr: <https://discoveruni.gov.uk/cy/how-will-i-pay-it-cy/>

## Gwybodaeth am arholiadau eleni

- Safon Uwch a Chymwysterau Uwch yr Alban:
  - Lloegr: <https://www.gov.uk/government/publications/awarding-qualifications-in-summer-2021/awarding-qualifications-in-summer-2021>
  - Yr Alban: <https://www.sqa.org.uk/sqa/96763.html>
  - Cymru: <https://llyw.cymru/canllawiau-arholiadau-ac-asesu-2020-i-2021>
  - Cymwysterau Cymru: <https://www.cymwysteraucymru.org/>
  - Gogledd Iwerddon: <https://ccea.org.uk/summer-2021>
- BTECS:
  - <https://qualifications.pearson.com/en/about-us/qualification-brands/btec/btec-information-hub.html>

## Cymorth ar gyfer derbyniadau

Darganfod Prifysgol: <https://discoveruni.gov.uk/cy/cynnwys-corona-covid-19/>

UCAS: <https://www.ucas.com/undergraduate/applying-university/ucas-undergraduate-when-apply>

## Gyrfaedd a graddau

- [Prospects](#)
- [The National Careers Service](#)
- [Skills Development Scotland](#)
- [Careers Wales](#)
- [NI Direct](#)

## Gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei wneud gyda'ch gradd

Prospects: <https://www.prospects.ac.uk/careers-advice/what-can-i-do-with-my-degree>

## Newidiadau i'r cyllid i fyfyrwyr yr UE:

UKCISA: <https://www.ukcisa.org.uk/Information--Advice/EU-EEA--Swiss-Students/Brexit---fees-and-Student-Support>

## Cyngor i fyfyrwyr rhyngwladol

UKCISA: <https://www.ukcisa.org.uk/Information--Advice>

British Council: <https://study-uk.britishcouncil.org/moving-uk/support-guidance>

## Cymorth iechyd meddwl

Student Minds: <https://www.studentminds.org.uk/>

